

# Cynllun Strategol

2017-20





# Cynnwys


|         |   |
|---------|---|
| Rhagair | 4 |
|---------|---|

|            |   |
|------------|---|
| Amdanom ni | 5 |
|------------|---|

|                                              |   |
|----------------------------------------------|---|
| Pwy ydym ni                                  | 5 |
| Yr hyn yr ydym yn ei wneud                   | 5 |
| Gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gennym | 5 |
| Ein gwerthoedd craidd                        | 6 |
| Ein blaenoriaethau strategol                 | 6 |

|                        |   |
|------------------------|---|
| Ein cynllun gweithredu | 7 |
|------------------------|---|

|                                                                                   |    |
|-----------------------------------------------------------------------------------|----|
| Blaenoriaeth Strategol 1: Darparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson               | 7  |
| Blaenoriaeth Strategol 2: Bod yn fedrus iawn, yn alluog ac yn ymatebol            | 8  |
| Blaenoriaeth Strategol 3: Bod yn llais arbenigol i ddylanwadu ac ysgogi gwelliant | 9  |
| Blaenoriaeth Strategol 4: Gweithredu deddfwriaeth yn effeithiol                   | 10 |



“

...pobl Cymru wrth  
galon popeth yr ydym  
yn ei wneud...

Gillian Baranski

”

# Rhagair



Gillian Baranski, Prif Arolygydd

**Mae'n bleser gennyf rannu gyda chi ein Cynllun Strategol ar gyfer 2017-20, sy'n egluro ein blaenoriaethau sefydliadol a'n huchelgais am y tair blynedd nesaf.**

---

Gyda Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn prysur ddod i rym, mae hon yn bennod gyffrous yn ein hanes, a nod y cynllun hwn yw ein cynorthwyo i siapio a diffinio ein blaenoriaethau a sicrhau ein bod yn barod i gyfarfod yr heriau newydd sydd o'n blaenau.

Rydym wedi bod yn paratoi ar gyfer y newidiadau hyn drwy adfyfrio ar ein swyddogaeth a sut yr hoffem gael ein gweld fel arolygiaeth.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod pobl Cymru wrth galon popeth yr ydym yn ei wneud a'n bod yn gwbl ymrwymedig i fod y gorau y gallwn fod, gan gyrraedd y safonau uchaf ym mhopeth a wnawn.

Mae arnom eisiau bod yn sefydliad sy'n gwrando, sydd ar gael i bawb, yn trin pawb yn gyfartal, yn parchu amrywiaeth ac yn gweithio ar y cyd gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid.

Byddwn yn agored ac yn dryloyw gyda diwylliant o welliant parhaus a safonau gwasanaeth o ansawdd da yn greiddiol i ni. Mae'r dyheadau hyn yn seiliedig ar ein gwerthoedd craidd - byddwn yn gweithio'n onest, byddwn yn dangos parch a byddwn yn ofalgar, yn deg ac yn broffesiynol bob amser.

I gefnogi ein blaenoriaethau strategol newydd, rydym hefyd wedi cwblhau adolygiad o'n strwythurau gweithredu. Nod yr adolygiad hwn oedd sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r doniau a'r galluoedd sy'n bod o fewn ein sefydliad er mwyn darparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson ledled Cymru.

Byddwn yn adolygu ein perfformiad bob blwyddyn ac yn mesur ein cynnydd yn erbyn ein blaenoriaethau strategol. Byddwn hefyd yn ailwerthuso'r blaenoriaethau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn berthnasol, amserol a phriodol.

Rydym wedi symleiddio'r ein henw i Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae'r newid bychan ond arwyddocaol hwn yn arwydd o ddechrau cyfnod newydd a chyffrous yn hanes ein sefydliad. Mae'r cynllun hwn yn ymgorffori'r egwyddorion a'r dyheadau y byddwn yn ymdrechu i'w cyflawni dros y tair blynedd nesaf.

# Amdanom ni

## Pwy ydym ni

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru, rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant. Rydym yn cofrestru, arolygu a chymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er mwyn lles pobl Cymru.

- **Ein staff:** 283 o staff ar draws Cymru.
- **Ein swyddfeydd:** Caerfyrddin; Cyffordd Llandudno a Merthyr Tudful.
- **Ein tîm o uwch-reolwyr:**
  - Prif Arolygydd
  - Dirprwy Brif Arolygydd x 2
  - Pennaeth Arolygu Gwasanaethau Oedolion a Phlant
  - Pennaeth Arolygu Gofal Plant a Chwarae
  - Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
  - Pennaeth Cofrestru a Gorfodi
  - Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi
  - Arweinydd Tîm Newid (Digidol).

## Yr hyn yr ydym yn ei wneud

- Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru.
- Rydym yn penderfynu pwy sy'n cael darparu gwasanaethau.
- Rydym yn arolygu ac yn ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau a reoleiddir a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol.
- Rydym yn cynnal adolygiadau thematig o wasanaethau gofal cymdeithasol.
- Rydym yn cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau yn bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol.
- Rydym yn ymchwilio i bryderon a godir ynghylch gwasanaethau a reoleiddir.

## Gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio gennym

- Gwasanaethau oedolion gan gynnwys cartrefi gofal, cynlluniau lleoli oedolion ac asiantaethau gofal cartref.
- Gwasanaethau plant gan gynnwys cartrefi gofal, gwasanaethau maethu a mabwysiadu, ysgolion arbennig preswyl a cholegau addysg bellach.
- Gwasanaethau gofal plant a chwarae gan gynnwys gwarchodwyr plant, crèches, meithrinfeydd, clybiau y tu allan i'r ysgol a chynlluniau chwarae.



“...rydym yn gwrando,  
yn gwerthfawrogi ac yn  
cefnogi eraill.”

# Amdanom ni

## Ein gwerthoedd craidd

Mae ein gwerthoedd craidd yn sicrhau bod pobl wrth galon pob dim yr ydym yn ei wneud, ac yn anelu at fod, fel sefydliad.

- **Unplygrwydd:** rydym yn onest a dibynadwy.
- **Parch:** rydym yn gwranddo, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi eraill.
- **Gofalgar:** rydym yn drugarog ac yn hawdd i siarad â ni.
- **Teg:** rydym yn gyson, yn ddiduedd ac yn gynhwysol.
- **Proffesiynol:** rydym yn fedrus, yn wybodus ac yn arloesol.

## Ein blaenoriaethau strategol

Rydym wedi nodi pedair blaenoriaeth strategol i roi cyfeiriad a chanolbwynt i'n sefydliad dros y tair blynedd nesaf.


- 1 Darparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson.
- 2 Bod yn fedrus iawn, yn alluog ac yn ymatebol.
- 3 Bod yn llais arbenigol i ddylanwadu ac ysgogi gwelliant.
- 4 Gweithredu deddfwriaeth yn effeithiol.

Byddwn yn adolygu'r blaenoriaethau hyn bob blwyddyn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn adlewyrchu'r amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo.

“

Byddwn yn sicrhau bod llais y bobl yn dylanwadu ar ein gwaith ac yn ei siapio.

”



# Ein cynllun gweithredu

## Blaenoriaeth Strategol 1:

### Darparu gwasanaeth o safon uchel yn gyson.

- Byddwn yn cryfhau llywodraethu, rheoli perfformiad a'r trefniadau ar gyfer gwneud penderfyniadau er mwyn gwella cysondeb, prydlondeb ac ansawdd ein gwaith ar bob lefel.
- Byddwn yn croesawu ac yn gweithredu ar adborth i wella ein perfformiad yn barhaus.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, fydd yn gymorth i bobl wneud penderfyniadau gwybodus.

### Erbyn 31 Mawrth 2018:

- ▶ Cwblhau adolygiad o strwythur y sefydliad a gweithredu'r newidiadau a gynigir.
- ▶ Adolygu disgrifiadau swyddi er mwyn cael eglurder ar swyddogaethau a chyfrifoldebau.
- ▶ Adolygu a gwella ein gwasanaethau ar-lein (gan gynnwys hysbysiadau, cofrestru a threfniadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd).
- ▶ Adolygu a gwella ein gwefan er mwyn darparu gwybodaeth glir i ddarparwyr a'r cyhoedd ynghylch ein gwasanaethau a'n disgwyliadau.
- ▶ Gwella'n defnydd o adborth ynglŷn â phrosesau arolygu.
- ▶ Datblygu proses gwyno newydd.
- ▶ Adolygu ein fframwaith dirprwyo.

### Erbyn 31 Mawrth 2019:

- ▶ Cynnal adolygiad o swyddogaeth cefnogi busnes a chefnogi'r arolygwyr.
- ▶ Sefydlu tîm gofal cwsmeriaid i ddarparu gwasanaeth pwynt cyswllt cyntaf.
- ▶ Gweithredu proses gwyno newydd.
- ▶ Cyhoeddi fframwaith Sicrhau Ansawdd er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ein holl waith.
- ▶ Adolygu'r holl gyfnodau amser presennol ar gyfer cwblhau ein gwaith.
- ▶ Adnewyddu ein gwybodaeth reoli er mwyn gwella perfformiad.

### Erbyn 31 Mawrth 2020:

- ▶ Adolygu ein model ariannol gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer cynhyrchu incwm.
- ▶ Cyhoeddi data chwarterol ar ein perfformiad.
- ▶ Cynnal ymarferiad ymgynghori â'r staff er mwyn asesu effaith y newidiadau yn strwythur y sefydliad.

# Ein cynllun gweithredu

## Blaenoriaeth Strategol 2:

Bod yn fedrus iawn, yn alluog ac yn ymatebol.

- Byddwn yn sefydliad uchelgeisiol sy'n dysgu ac sy'n gwerthfawrogi ac yn ymgysylltu â phob aelod o'r staff.
- Byddwn yn hybu amrywiaeth a chynhwysiant i wneud AGC yn lle gwyh i weithio.
- Byddwn yn datblygu sgiliau ein staff er mwyn cefnogi dilyniant gyrfa a datblygiad proffesiynol parhaus.
- Byddwn yn paratoi ac yn hyfforddi ein staff i sicrhau y gallwn gyflawni ein swyddogaethau yn effeithlon ac yn effeithiol.

### Erbyn 31 Mawrth 2018:

- ▶ Hybu cymorth iechyd a lles i'n staff a chymryd camau buan ac effeithiol i reoli absenoldeb salwch.
- ▶ Datblygu rhaglenni dysgu a datblygiad penodol i swyddogaethau, gan gynnwys arweinyddiaeth, sefydlu, diogelwch gwybodaeth a chyfleoedd hyfforddi arbenigol.
- ▶ Codi ymwybyddiaeth o'r cod ymarfer proffesiynol ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol.
- ▶ Adolygu galluoedd ein gweithlu yn y Gymraeg.
- ▶ Adolygu ein polisi goruchwyllo a'n defnydd o fframwaith PMR Llywodraeth Cymru.

### Erbyn 31 Mawrth 2019:

- ▶ Cynnal digwyddiad hyfforddi agoriadol i'r staff i gyd i fod o gymorth i weithredu RISCA.
- ▶ Datblygu strategaeth gweithlu / recriwtio gan gynnwys cynllunio olyniaeth, llwybrau gyrfa, secondiadau, lleoliadau myfyrwyr a phrentisiaethau.
- ▶ Adolygu'r dechnoleg / offer a ddefnyddir gan ein harolygwyr.
- ▶ Datblygu mecanweithiau i rannu gwybodaeth ac arfer gorau ar draws ein timau arolygu, gan gynnwys y gwersi a ddysgwyd a'r setiau gweithredu.
- ▶ Adolygu ein model o ymgysylltu â'n staff.
- ▶ Datblygu siarteri tîm i gefnogi arferion gweithio hyblyg sy'n gyson ar draws ein sefydliad.
- ▶ Adolygu'r model a'r defnydd o arolygwyr y telir ffioedd iddynt.
- ▶ Sefydlu paneli Doniau i gefnogi datblygiad staff.
- ▶ Adolygu a gweithredu hyfforddiant sefydlu ac Addysg a Dysgu Proffesiynol Parhaus (CPEL) i wella datblygiad ein harolygwyr.

### Erbyn 31 Mawrth 2020:

- ▶ Ystyried sefydlu cynllun arolygwyr dan hyfforddiant.

# Ein cynllun gweithredu

## Blaenoriaeth Strategol 3:

**Bod yn llais arbenigol i ddylanwadu ac ysgogi gwelliant.**

- Byddwn yn rhannu gwybodaeth o ansawdd da a'n harbenigedd gyda phartneriaid allweddol i gryfhau ymarfer ar sail tystiolaeth.
- Byddwn yn sicrhau bod llais y bobl yn dylanwadu ar ein gwaith ac yn ei siapio.
- Byddwn yn hybu perthynas effeithiol a chydweithredol gyda rhanddeiliaid allweddol i ysgogi ansawdd a gwelliannau ar draws sectorau gofal cymdeithasol ac iechyd yn unol â Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol a Datganiad Llesiant 2017.
- Byddwn yn defnyddio canlyniadau ac argymhellion ein harolygiadau i wella'r gwasanaethau gofal.

### Erbyn 31 Mawrth 2018:

- ▶ Nodi swyddogion arweiniol i'n galluogi i ddarparu llais arbenigol a chyngor ac arweiniad cyson.
- ▶ Adolygu'r modd y gall ein Bwrdd Cyngori Cenedlaethol a Ein Llais gyfrannu i'n gwaith.
- ▶ Adeiladu partneriaeth gref gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.
- ▶ Datblygu rhaglen o waith ar y cyd gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

### Erbyn 31 Mawrth 2019:

- ▶ Gweithredu strategaeth ymgysylltu a chyfathrebu â rhanddeiliaid.
- ▶ Adolygu ein polisi o gyhoeddi ar y wefan.
- ▶ Adolygu ein trefniadau rhannu gwybodaeth er mwyn symleiddio ein protocolau gyda'n partneriaid allweddol, gan gynnwys arolygiaethau eraill.
- ▶ Cryfhau'r defnydd o'n sylfaen tystiolaeth i fod yn sail i gydweithio, ysgogi gwelliannau a phenderfynu ein blaenoriaethau.
- ▶ Cynnal adolygiad thematig o ansawdd gofal mewn cartrefi gofal plant.
- ▶ Datblygu hunanasesiadau ar gyfer gwaith awdurdodau lleol.
- ▶ Datblygu rhaglen o gyd-arolygiadau gydag Estyn.

### Erbyn 31 Mawrth 2020:

- ▶ Cynnal adolygiad thematig o ofal dementia mewn cartrefi gofal.
- ▶ Datblygu rhaglen o adolygiadau thematig gan gynnwys adolygiad thematig mewn Arolygu Gofal Plant a Chwarae (2021-2025).
- ▶ Gwella amrediad data perfformiad y sector yr ydym yn ei gyhoeddi.
- ▶ Cryfhau ein system er mwyn defnyddio'r adborth yr ydym yn ei dderbyn i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau gofal.
- ▶ Gwella trefniadau rhannu gwybodaeth a data gyda Gofal Cymdeithasol Cymru.

# Ein cynllun gweithredu

## Blaenoriaeth Strategol 4:

### Gweithredu deddfwriaeth yn effeithiol.

- Byddwn yn paratoi ac yn gweithredu ffyrdd newydd o weithio i gefnogi newidiadau deddfwriaethol gan gynnwys Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (RISCA) a Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (SSWBA)
- Byddwn yn gwneud Safonau'r Gymraeg yn rhan annatod o bob agwedd ar ein gwaith.
- Byddwn yn sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhan sylfaenol o'n rhaglenni gwaith.
- Byddwn yn cynghori ac yn ymateb yn effeithiol i newidiadau deddfwriaethol sy'n effeithio ar AGC, gan gynnwys y cynnig gofal plant yng Nghymru.

### Erbyn 31 Mawrth 2018:

- ▶ Ymgynghori a chyhoeddi codau ymarfer ar gyfer arolygiadau gwasanaethau oedolion a phlant.
- ▶ Darparu llythyrau a diweddariadau rheolaidd ar newidiadau deddfwriaethol gan gynnwys SSWBA a RISCA.
- ▶ Adolygu ein fframwaith Arolygu Awdurdodau Lleol i gyd-fynd â SSWBA.
- ▶ Datblygu fframwaith diwygiedig (cartrefi gofal, gofal cartref, llety diogel, canolfannau teuluol preswyl) er mwyn i waith rheoleiddio gyd-fynd â RISCA.
- ▶ Adolygu a datblygu ein canllaw a'n gweithdrefnau diogelu yn unol â'r deddfwriaeth newydd.
- ▶ Cynnal peilot ar fframwaith arolygu ar gyfer gwasanaethau mabwysiadu i gyd-fynd â SSWBA.
- ▶ Penodi Hyrwyddwr y Gymraeg.
- ▶ Cyhoeddi data ar berfformiad gwasanaethau rheoleiddio mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg.

# Ein cynllun gweithredu

## Erbyn 31 Mawrth 2019:

- ▶ Cofrestru darparwyr perthnasol o dan RISCA.
- ▶ Datblygu fframwaithau ar gyfer ein cyfrifoldebau goruchwyllo'r farchnad dan RISCA.
- ▶ Datblygu fframweithiau pellach (eiriolaeth, lleoliadau oedolion, mabwysiadu a maethu) er mwyn i waith rheoleiddio gyd-fynd â RISCA.
- ▶ Datblygu Datganiad Hunanasesu'r Gwasanaeth (SASS) ar-lein llawn ar gyfer gwasanaethau oedolion.
- ▶ Ymgynghori a chyhoeddi codau ymarfer ar gyfer arolygiadau awdurdodau lleol, gan gymryd rhanbartholi i ystyriaeth.
- ▶ Adolygu a gweithredu newidiadau yn dilyn adolygu'r safonau gofynnol cenedlaethol ar gyfer gofal plant a chwarae.
- ▶ Adolygu ein prosesau i fod o gymorth i ddarparu a gweithredu'r cynnig gofal plant ar gyfer Cymru.
- ▶ Adolygu ein proses arolygu er mwyn gweithredu trefn raddau.
- ▶ Cyhoeddi graddau ar gyfer gwasanaethau gofal plant a chwarae.
- ▶ Gwella ein trefniadau gweithio ar y cyd gyda'r Heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron a'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch i fod o gymorth i'n gwaith gorfodi.
- ▶ Gweithredu newidiadau i gydymffurfio â'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol gan gynnwys adolygu ein strategaeth diogelu gwybodaeth.

## Erbyn 31 Mawrth 2020:

- ▶ Gweithredu fframwaith ar gyfer ein cyfrifoldebau goruchwyllo'r farchnad dan RISCA.
- ▶ Nodi cyfleoedd i weithio'n agosach gyda rheoleiddwyr ac arolygiaethau eraill gan gynnwys Arolygu Cymru.



“

Byddwn yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth, fydd yn gymorth i bobl wneud penderfyniadau gwybodus.

”